

## HUGHES, STEPHEN (1622 - 1688), un o'r Anghydffurfwyr bore

**Enw:** Stephen Hughes  
**Dyddiad geni:** 1622  
**Dyddiad marw:** 1688  
**Priod:** Catherine Hughes (née Daniel)  
**Rhiant:** John Hughes  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** un o'r Anghydffurfwyr bore  
**Maes gweithgaredd:** Crefydd  
**Awdur:** Griffith John Williams

Mab John Hughes, sidanydd yn nhref Caerfyrddin. Ni wyddys odid ddim am ei hanes yn ei ieuenctid, ond y mae'n bosibl iddo fod yn ysgol ramadeg Caerfyrddin. Cafodd fywoliaeth Meidrum yn 1654, a dywedir iddo gael bywoliaeth Merthyr (yn Sir Gaerfyrddin) cyn hynny. Yr oedd yn r o ddylanwad yng nghyfnod Cromwell.

Tua 1658 fe'i cawn yn dechrau ar waith mawr ei fywyd, sef cyhoeddi llyfrau Cymraeg i'r werin. Cyhoeddodd ran gyntaf gwaith [Ficer Prichard](#) yn 1659, a daeth yr ail allan yn fuan wedyn (er nad oes gopi ohoni ar glawr). Daeth pen ar y cyhoeddi pan adferwyd y brenin, a gorfu iddo ymadael â Meidrum. Ychydig a wyddom amdano yng nghyfnod yr erlid, ond dywedir iddo barhau i bregethu yn Sir Gaerfyrddin ac iddo gadw ysgolion.

Priododd â Catherine merch John Daniel, ail faer Abertawe, ac yno y cartrefodd o hynny ymlaen.

Tua 1670 llwyddodd i aildechrau ar y gwaith o gyhoeddi llyfrau Cymraeg, a daeth y drydedd ran o waith yr '[Hen Ficer](#)' allan y flwyddyn honno. Cafodd gefnogaeth Eglwyswyr yn ogystal ag Anghydffurfwyr, a chyhoeddodd bedair rhan o waith [Ficer Prichard](#) yn un gyfrol, yn 1672, yn ogystal â *Lyfr Psalmau, ynghyd â Thestament Newydd ein Harglwydd, a Catechism Mr. Perkins*. Yr oedd yn Llundain yn y cyfnod hwn, a chyfarfu â [Thomas Gouge](#) a [Charles Edwards](#). Bu'n cydweithio â hwy am dros ddeng mlynedd. Yr oedd yn Llundain drachefn yn 1677, a chyhoeddodd ddwy gyfrol gyfansawdd, sef *Tryssor i'r Cymru a Cyfarwydd-deb i'r Anghyfarwydd*. Yna, yn 1677-8, gwelodd sylweddoli un o'i freuddwydion, sef dwyn allan argraffiad rhad o'r Beibl. Cyhoeddodd argraffiad arall o waith [Ficer Prichard](#) yn 1681, a'r waith hon rhoddwyd iddo'r teitl, *Canwyll y Cymru*. Yn 1683 parodd argraffu llyfryn tebyg i waith y [Ficer](#), sef *Cynghorion Tad i'w Fab* gan [Henry Evans](#). Bu ef a thri eraill wrthi'n cyfieithu llyfr enwog Bunyan, a chyhoeddwyd ef yn 1688 o dan y teitl, *Taith neu Siwrnai y Pererin*. Y mae'n eglur iddo wneuthur llawer iawn i hyrwyddo cynlluniau [Gouge](#) yng Nghymru tra parhâi i bregethu i gynulleidfaoedd gwasgaredig Sir Gaerfyrddin a'r cyffiniau.

Bu farw yn Abertawe yn 1688, a phrofwyd ei ewyllys ar 16 Gorffennaf. Y mae Stephen Hughes yn bwysig nid yn unig fel apostol Anghydffurfiaeth ond fel un o'r gw r a ddechreuodd droi gwerin Cymru yn geidwaid yr iaith.

### Awdur

Yr Athro Emeritus Griffith John Williams, (1892 - 1963)

### Ffynonellau

*Y Beiriniad*, ii (1912), 175-85

*Y Cofiadur*, rhifyn 4, 1926

*Y Cofiadur*, 31, tt. 35-9

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Stephen Hughes](#)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q18672355](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

